

Defnyddio'r Wasg i gyrraedd eich cynulleidfa

Wrth ystyried cysylltu â'r wasg gofynnwch y cwestiynau canlynol:

- Pwy yw fy nghynulleidfa darged?
- Pa gyfrwng maen nhw'n debygol o wyllo, gwranddo neu ddarllen?
- Ydy fy stori yn berthnasol i'r cyfrwng cyfryngol yr ydw i wedi ei ddewis? A fydd fy natganiad o ddiddordeb iddyn nhw?
- Ydy fy stori o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol?
- Ydy fy mhwno yn un arbenigol neu a oes ganddo apêl ehangach?
- Pa mor debygol yw hi y bydd y cyfryngau yr ydw i wedi dewis yn defnyddio fy stori?

Cynllunio

Bydd paratoi Cynllun Hyrwyddo, neu Gysylltiadau Cyhoeddus yn cynnig canllawn i'ch cynorthwyo i ganolbwyntio ar yr ymgyrch neu ddigwyddiad.

Cam 1: Cyflwyniad Amlinelliad o beth i'w wneud a pham, beth sy'n digwydd a phwy fydd yn cymryd rhan. Dylai'r cyflwyniad osod y digwyddiad yn ei gyd-destun ehangach (e.e. ydy'r datganiad yn cael ei gyhoeddi oherwydd canlyniadau ymchwil neu arolwg penodol neu ymgyrch genedlaethol). Dylid nodi pa gysylltiadau'r wasg sydd eisoes yn eich meddiant a pha rhai eraill sydd angen eu casglu.

Cam 2: Nod ac Amcanion

Mae llwyddiant yr ymgyrch hyrwyddo'n ddibynol ar amcanion clir. Beth yw'r nod a'r amcan? Bydd gosod yr amcanion hyn yn ei gwneud hi'n haws i ganolbwyntio eich ymdrechion ac asesu effeithiolrwydd.

Cam 3: Cynulleidfa Darged

Dyma'r grŵp o bobl yr ydych eisiau ei dargedu. Er eich bod eisiau i bobl eraill i ddarllen neu glywed eich neges yn gyffredinol, efallai eich bod yn gofyn i eraill i weithredu yn uniongyrchol. Bydd angen newid ton yr iaith yn unol â'r gynulleidfa.

Cam 4 : Targedu'r Cyfryngau

Sut mae cyrraedd y gynulleidfa.

Efallai nad oes llawer o bwynt cysylltu gyda'r gohebwyr cenedlaethol ynglŷn â digwyddiad lleol. Er hynny os yw'r digwyddiad/gwasanaeth y cyntaf o'i fath neu yn adlewyrchu newid polisi neu' ddigwyddiad arloesol arall sy'n digwydd ar lefel genedlaethol, mae hi werth cysylltu gydag adran arbenigol o'r wasg genedlaethol e.e. Guardian Society.

Cam 5: Beth yw eich prif neges?

Mae ymgyrchoedd llwyddiannus yn glynu at un neu ddwy neges glir – sef y prif bwyntiau sydd angen eu trosglwyddo i'r gynulleidfa.

Cadw'r neges yn gryno a pherthnasol.

Dylai'r neges lifo yn uniongyrchol o'r amcanion i'r cyhoeddusrwydd. (e.e. Ymwybyddiaeth iechyd Meddwl: Dyw'r rhan fwyaf o bobl sydd â salwch meddwl ddim yn dreisgar a gall salwch meddwl effeithio ar unrhyw un). Y brif neges yw'r un yr ydych yn awyddus ei throsglwyddo trwy'r cyfryngau, ar y teledu neu'r radio.

Targeddu eich neges. Yn ogystal a'r brif neges bydd angen teilwra neu addasu eich datganiad ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

Bydd angen rhagwel a fydd unrhyw wrthwynebiad. Mewn ymgyrch gyfredol neu pan yn cynllunio digwyddiad dadleuol, mae hi werth ystyried beth fydd barn pobl neu sefydliadau eraill a pharatoi atebion i'w dadleuon.

Cam 6: Dulliau o ddenu cyhoeddusrwydd

Mae rhai digwyddiadau yn mynd i ddenu sylw diymdrech e.e. gwasanaeth newydd neu rywbeth sy'n digwydd am y tro cyntaf. . Er mwyn sicrhau cyhoeddusrwydd bydd angen 'bachyn' newyddiadurol er mwyn gwneud y digwyddiad yn fwy deniadol a chynyddu'r sylw.

Cam 7: Llefarywr

Mae angen dod o hyd i un neu ddau o bobl o flaen llaw fydd yn llefarywr ar ran eich mudiad. Llefarydd yw rhywun sy'n siarad ar ran y sefydliad, cynllun neu wasanaeth. Mae enwebu llefarydd yn gymorth i osgoi datganiadau gwrthgyferbyniol.

Cam 8: Straeon Personol

Mae newyddiadurwyr yn hoff o siarad yn uniongyrchol a phobl ynglŷn â'u profiadau. Mae hefyd yn bwysig i bobl allu siarad am eu straeon personol eu hunain. Er hynny mae hyn yn golygu bod person yn agored i'r wasg ar lefel personol. Mae angen rhoi paratodau ar droed er mwyn amddiffyn y cyfrannydd. (gweler islaw)

Cam 9: Rhoi ar waith

Ar ôl cwblhau'r camau uchod;

- Ysgrifennwch y Cynllun Hyrwydd a'i ddsbarthu i bawb sy'n gweithio ar yr ymgyrch/digwyddiad.
- Lluniwch restr gyswllt i'r cyfryngau.
- Dewch o hyd i'r dyddiad sydd angen anfon datganiadau.
- Paratoi Datganiad I'r Wasg a gwybodaeth atodol.
- Adnabod a briffio cyfranwyr.